Ionawr 2026

Annwyl Gydweithwyr,

**Ynglŷn â: Rhoi Tabl Cyflogau Newydd Ar Waith o 1 Ebrill 2026**

Diolch i bawb a roddodd o'u hamser i roi adborth yn ystod yr ymgynghoriad diweddar ar y newidiadau arfaethedig i Dabl Cyflogau'r NJC. Mae'r cyfnod ymgynghori bellach wedi dod i ben, ac mae'r adborth i gyd wedi'i ystyried yn ofalus.

Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn, yr wyf yn falch o gadarnhau y bydd y Tabl Cyflogau newydd yn cael ei roi ar waith ar **1 Ebrill 2026**. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i greu strwythur cyflog tecach a mwy cynaliadwy i'r staff i gyd ar delerau ac amodau'r NJC.

Prif bwyntiau i'w nodi:

- Bydd y Tabl Cyflogau newydd yn dod i rym ar **1 Ebrill 2026**.
- Bydd unrhyw gynyddrannau sydd wedi'u trefnu ar y dyddiad hwnnw'n cael eu cymhwyso yn gyntaf, ac yna'n cael eu cymathu i'r strwythur cyflog newydd.
- Ni fydd cyflog unrhyw weithiwr yn gostwng o ganlyniad i'r newidiadau hyn.
- Mae'r tabl cyflogau a'r tabl cymathu newydd wedi'u hatodi er gwybodaeth i chi ac er mwyn i chi ddeall eich cyflog o 1 Ebrill 2026. Gallwch chi hefyd gael gafael ar y rhain yn **www.sirddinbych.gov.uk/graddfeydd-cyflog**.
- Noder: Nid yw'r tabl cyflogau hwn yn cynnwys y dyfarniad cyflog blynyddol o fis Ebrill 2026, bydd hwn yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr arfer pan ddeuir i gytundeb.

Rydym ni'n gwerthfawrogi eich ymgysylltiad drwy gydol y broses hon ac yr ydym ni'n edrych ymlaen at roi'r gwelliannau hyn ar waith. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â **PayandRewards@denbighshire.gov.uk**.

Yn ddiffuant

C Roberts

**Catrin Roberts**
**Pennaeth Gwasanaeth – Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl**